

YMARFER 7: Sylwadau

Imagine leaving your house to walk down the street where you have always lived¹, a place you know like the back of your hand² – only to realize that you have no idea where you are. This is just one of the symptoms of Alzheimer's. 850,000 people in the UK are made strangers within their own homes by the horrifying effects of this disease.³

Alzheimer's is a disease which causes deterioration of the human brain. It is the most common cause of dementia⁴ and can develop so quickly that it is often not detected until it has progressed too far. The symptoms of Alzheimer's are unique to each individual, however for most people, the earliest symptom includes memory lapses and trouble remembering details of recent events.

Alzheimer's disease is not an inevitable part of normal ageing, nor even an acceleration of ageing⁵; it is a true disease. But like heart disease and cancer, it is increasingly common as we age. The incidence of Alzheimer's disease⁶ approximately doubles every 5 years⁷ over the age of 60, so that about 25% of those over 80 years old have the disease⁸.

The symptoms of Alzheimer's disease are caused by a loss of nerve cells in certain regions of the brain⁹, such as the cerebral cortex, which control our higher mental functions¹⁰. The degeneration of these nerve cells leads to the loss of millions of connections between them, such as the loss of connections linked to memory that causes the first symptoms.

[addasiad o ddeunydd ar wefan *Alzheimer's Research*]

1. **Imagine leaving your house to walk down the street where you have always lived...**

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *y stryd y buoch yn byw ynddo*
2. *y stryd lle rydych chi bob tro wedi byw*
3. *y stryd rydych wedi byw arni ers blynyddoedd maith*
4. *y stryd lle rydych wedi byw yno byth a hefyd*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *y stryd lle'r ydych wedi byw erioed*

SYLW:

1. Yn y cymal uchod, mae rhai cyfieithwyr wedi dewis yr ymadrodd cyfatebol anghywir wrth gyfieithu. Mae *byth a hefyd* yn ymadrodd Cymraeg da ond nid yw'r ystyr yn gywir yn y cyd-destun. *Erioed* yw'r gair angenrheidiol wrth gyfieithu '**you have always lived...**'. Mae'n ymddangos i'r ymgeisydd ddarllen neu glywed yr ymadrodd rhyw dro ond efallai nad yw'n gwbl sicr beth sy'n cyfateb iddo yn Saesneg.

2. **a place you know like the back of your hand**

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *man yr adwaenoch fel cledr eich llaw*
2. *Ile rydych chi'n ei wybod y tu chwyneb*
3. *Ilecyn rydych yn hynod o gyfarwydd ag ef*
4. *mor gyfarwydd ichi*
5. *Ileoliad yr ydych yn ei adnabod*
6. *troedio'r llwybr honno [=hwnnw] sy'n ail natur i chi*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *rhywle sydd mor gyfarwydd i chi â chefn eich llaw*

SYLWADAU:

1. Yn y cymal uchod, mae rhai cyfieithwyr wedi dewis yr ymadrodd cyfatebol anghywir wrth gyfieithu ac mae'r cywair weithiau'n anghywir, er enghraifft dewis *Ileoliad* a *Ilecyn*.

2. Mae'r ymadrodd *fel chefn eich llaw* yn ddigon derbyniol wrth gyfieithu 'like the back of your hand' o'r Saesneg. Fodd bynnag, rhaid sicrhau eich bod yn dewis yr ymadrodd cywir a'i arfer yn gywir. *Fel chefn eich llaw* sy'n gywir, ac nid *fel cledr eich llaw* ('yng nghledr eich llaw' = 'in the palm of your hand').

3. Tybiaf mai ymgais i gyfleu 'inside out' yw *tu chwyneb*. Mae *Geiriadur yr Academi* yn cynnig 'tu chwyneb allan', am 'inside out' ond nid yng nghydestun adnabod rhywbeth yn drylwyr. Nid yw ystyr y cyfieithiadau aflwyddiannus eraill yn cyfleu'r gwreiddiol yn ddigon manwl.

3. **850,000 people in the UK are made strangers within their own homes by the horrifying effects of this disease.**

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *Caiff 850,000 o bobl yn y DU eu gwneud yn ddieithriad yn eu cartrefi eu hunain gan effeithiau arswydus y clefyd hwn.*
2. *...cael eu gwneud yn ddieithriad yn eu cartrefi eu hunain...*
3. *Mae 850,000 o bobl yn y DU yn teimlo fel dieithryn...*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *Mae effeithiau arswydus y clefyd hwn yn troi 850,000 o bobl yn y DU yn ddieithriad yn eu cartrefi'u hunain.*

SYLWADAU:

1. Mae rhai o'r enghreifftiau uchod yn dibynnu'n ormodol ar batrwm y Saesneg, ac yn ceisio cadw'r un drefn, doed a ddelo. Meddylwch am ystyr y Saesneg – ac yna cyfnewid y cymalau os oes angen er mwyn cyfleu'r ystyr yn fwy naturiol yn y Gymraeg. Darllener *Gramadeg y Gymraeg* Peter Wynn Thomas 6.200.

2. Gan mai lluosog yw *850,000 o bobl*, dylid cynnal hyn trwy ddefnyddio

lluosog dieithryn, sef *dieithriaid*

4. **It is the most common cause of dementia...**

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *Dyma ganlyniad mwyaf cyffredin dementia*
2. *Gan amlaf fe sy'n achosi dementia*
3. *Mae'n arwain at ddementia yn fwy na dim byd arall*
4. *Achos mwyaf cyffredin gorffwylltra ydyw*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *Dyma achos mwyaf cyffredin dementia*
2. *Hwn yn anad dim sy'n achosi dementia*

SYLWADAU:

1. Methodd llawer o'r cyfieithwyr â chyfleu ystyr y Saesneg yn fanwl.
2. Nid yw *achos* ('cause') yr un fath â *chanlyniad* ('result'/'consequence').
3. Nid yw *gan amlaf* yn cyfleu 'the most common'. Hefyd, nid yw'n eglur beth yw arwyddocâd *fe* (Afl.2). Tybed a oedd y cyfieithydd yn ceisio rhoi pwyslais ar 'It' [= 'clefyd Alzheimer'] trwy ddefnyddio geiryn berfol cadarnhaol 'fe' yn hytrach na'r ferf ddangosol 'dyma'? (Gweler *Gramadeg y Gymraeg* Peter Wynn Thomas 3.18; 4.183.)
4. Nid yw'r gwreiddiol yn awgrymu bod y clefyd yn arwain at gyflyrau eraill, ond dyma a awgrymir yng nghyfieithiad Afl.3.
5. Mae problemau cywair a chystrawen yn Afl.4, a hyn sy'n gwneud yr ystyr yn aneglur. Er bod Cysgeir Cymraeg – Saesneg yn cynnig 'dementia' fel cyfieithiad o 'gorffwylltra', defnyddir y gair 'dementia' yn ddigon mynych y dyddiau hyn i'r cyfieithydd sylweddoli nad yw *gorffwylltra* yn air priodol yn y cyd-destun yma.

5. **Alzheimer's disease is not an inevitable part of normal ageing, nor even an acceleration of ageing; it is a true disease.**

Cyfieithu Aflwyddiannus:

1. *nid heneiddio cyflymach ydyw ychwaith*
2. *nac ychwaith yn rhywbeth sy'n cyflymu...*
3. *nac ychwaith yn cyflymu'r broses o dyfu'n hen*
4. *nac yn fodd o heneiddio'n gyflymach*
5. *nid yw hyd yn oed yn arwydd o heneiddio'n gynamserol*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *Nid yw clefyd Alzheimer yn rhan anoche! o heneiddio arferol, na hyd yn oed yn cyflymu'r broses heneiddio...*

SYLWADAU:

1. Mae llawer o ymgeiswyr wedi defnyddio *ychwaith* ('neither') (Afl.1, Afl.2, Afl.3).

2. '*na hyd yn oed*' yw'r ymadrodd sydd ei angen i gyfleu '**nor even**'. Nid yw cyfieithiad Afl.4 yn llwyddiannus oherwydd mae defnyddio'r gair *modd* ('means of') yn awgrymu bod yna fwrriad i heneiddio.

2. Mae '**acceleration of ageing**' yn golygu ei fod yn digwydd yn gyflymach, yn hytrach na phan fydd rhywun yn ieuengach, felly nid yw *cynamserol* yn cyfleu ystyr y gwreiddiol.

6. The incidence of Alzheimer's disease...

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *Mae digwyddiadau o glefyd Alzheimer...*
2. *Mae'r tebygolrwydd o glefyd Alzheimer...*
3. *Mae'r ymddangosiad afiechyd Alzheimer...*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *Mae nifer yr achosion o glefyd Alzheimer...*

SYLW:

1. Er bod yn yr enghreifftiau uchod rai problemau cywair, er enghraifft *digwyddiadau* ('happenings'), *tebygolrwydd* ('likelihood') ac *ymddangosiad* ('appearance') mae'n amlwg i'r gystrawen hefyd beri trafferth i'r cyfieithwyr. Mae'r cyfieithiadau hyn braidd yn lletchwith ac nid oes yr un ohonynt yn taro deuddeg fel ffordd gystrawennol foddhaol o fynegi '**the incidence of Alzheimer's disease**'.

7. ...approximately doubles every 5 years

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *dyblu bob pum mlynedd*
2. *yn agos at ddyblu*
3. *bron iawn yn dyblu*
4. *ar gyfartaledd... yn dyblu bob 5 mlynedd*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *yn dyblu, yn fras, bob 5 mlynedd*
2. *fwy neu lai yn dyblu bob 5 mlynedd*

SYLW:

1. Yn yr enghreifftiau aflwyddiannus uchod, nid yw'r cyfieithwyr wedi llwyddo i gyfieithu '**approximately doubles**'. Nid yw *yn agos at* na *bron iawn* yn golygu'r un fath ag 'approximately'. Maent yn awgrymu ffigur *is*. Byddai *tua*, *oddeutu*, *rhyw*, neu *yn fras* yn nes ati - oherwydd yn ôl y gwreiddiol, fe allai'r nifer fod ychydig yn is **neu** ychydig yn uwch, ac mae'n rhaid adlewyrchu hynny yn y cyfieithiad. Nid yw *ar gyfartaledd* yn dderbyniol chwaith fel ffordd o gyfleu'r diffyg manylder (sef 'approximately') yn y Saesneg. Efallai bod datganiad y cyfieithydd yn wir, ond nid dyna sydd yn y gwreiddiol!

8. ...so that about 25% of those over 80 years old have the disease.

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *yr afiechyd gan 25% o'r rhain*
2. *yn effeithio rhyw 25% o bobl dros 80 oed*
3. *oddeutu 25% yn meddu ar y clefyd*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *...sy'n golygu bod y clefyd ar oddeutu 25% o bobl dros eu 80 oed.*

SYLWADAU:

1. Mae gofyn defnyddio'r arddodiad *ar* yn hytrach na *gan* er mwyn cyfleu 'have [a] disease' yn gystrawennol gywir (e.e. 'mae annwyd arni'). Nid yw *meddu ar y clefyd* yn ffordd naturiol o gyfleu hyn ychwaith. Mae'n mynd yn groes i'r duedd yn y Gymraeg i fynegi'r syniad ein bod 'dan' ryw glefyd, e.e. 'mae hi dan y ffliw' h.y. 'mae'r clefyd arnom ni'. Mae *meddu ar y clefyd* neu ddweud bod y clefyd *gennyh* chi yn awgrymu mai chi eich hun, yn hytrach na'r clefyd, sy'n rheoli'ch tynged!

2. Hefyd, unwaith eto, nid yw'r ffigwr a nodir yn y gwreiddiol yn fanwl (**about 25% of those...**) ac roedd sawl un wedi hepgor 'tua' / 'rhyw' / 'oddeutu'. Os ydych am gyfieithu 'affects around 25%...' yna fe allech ddefnyddio 'effeithio'. Ond byddai angen i chi ddweud 'effeithio ar ryw 25%'. Ni fyddai'n gywir defnyddio'r ferf dan sylw heb yr arddodiad priodol.

9. ...a loss of nerve cells in certain regions of the brain...

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *rhanbarthau [penodol]*
2. *ardaloedd arbennig*
3. *mannau sicr*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *mewn rhannau penodol o'r ymennydd*

SYLW:

1. Rhaniadau daearyddol yw *rhanbarthau* ac *ardaloedd*. Byddai *rhannau*'n air gwell yn y cyd-destun yma, neu o bosibl *mannau*. Ystyr '**certain**' yn y gwreiddiol yw *penodol*. Mae pob rhan o'r ymennydd, hyd y gwyddom, yn arbennig, ond rhan 'benodol' ohoni sy'n gyfrifol am weithrediad penodol. Yn bendant nid yw *sicr* yn cyfleu'r un peth.

10. ...which control our higher mental functions.

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *...prif swyddogaethau ein hymennydd*
2. *...ffwyddiannau uwchraddol*
3. *...ein [h]uwch weithgarwch meddyliol*
4. *...[h]uwch swyddogaethau meddyliol*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. ...gweithrediadau meddyliol uwch

SYLWADAU:

1. Efallai na fyddai disgwyl o reidrwydd i gyfieithydd fod yn gyfarwydd â'r term *gweithrediadau meddyliol uwch* ('**higher mental function**'). Mae'n disgrifio'r 'sgiliau' hynny y mae'r ymennydd yn eu dysgu dros amser, e.e. cofio, siarad, sylwi ac yn y blaen, yn hytrach na'r gweithrediadau meddyliol elfennol sy'n digwydd heb orfod eu 'dysgu', er enghraifft anadlu, synhwyro. Maent yn cyfeirio at weithrediadau sydd ar haen wahanol i'r rhai elfennol. Gan na chyfeirir yn y testun at flaenoriaeth y ddau fath o weithrediad, ni ellir disgrifio'r *gweithrediadau meddyliol uwch* fel *prif swyddogaethau*. Fel *prif*, mae gosod *uwch* o flaen yr enw (Afl.3 ac Afl.4) yn awgrymu blaenoriaeth.

2. O ddefnyddio Cysgeir yn yr arholiad, gellir gweld bod *Terms in the Health Care of Older People* yn cynnig *gweithrediad*, yn hytrach na *swyddogaeth*, am '**function**'. Cynigodd sawl ymgeisydd 'ffwythiant' am '**function**'. Tybed ai ymgais i greu lluosog 'ffwythiant' yw *ffwyddiannau*? Unwaith eto, o gyfeirio'n ôl o'r Gymraeg i'r Saesneg yn Cysgeir er enghraifft, neu drwy gyfeirio at thesawrws Saesneg, mae'n amlwg bod 'ffwythiant' yn cyfeirio at elfennau technegol mewn meysydd cwbl wahanol. Er na ddefnyddiwyd y term gan yr un ymgeisydd, byddai 'gwybyddol' hefyd wedi bod yn dderbyniol am 'mental' yn y cyswllt yma.

Cywirdeb

- dychmygwch eich hunain (yn amlwg yn cyfeirio at un person!)
- dychmygwch gadael eich tŷ
- sylweddoli nad ydych a syniad
- troedio'r llwybr honno
- dieithru
- cartrefu (enw lluos.)
- dieithrion
- yn gynyddol fwy cyffredin
- mae'n digwydd yn fwyfwy wrth...
- yn fwyfwy gyffredin
- droes yr oedran 60 droes 80 oed
- ein uwch weithgarwch meddyliol

AWGRYMIADAU:

Fel ymhob arholiad, roedd sawl enghraifft i'w gweld. O ddarllen yn ofalus dros y darn ar ôl ei gyfieithu – ar ôl ei argraffu os oes modd gwneud hynny - byddai modd i bob ymgeisydd sylwi ar lawer o'r gwallau yma a'u cywiro cyn cyflwyno'r papur i'w farcio.

Mae gwallau teipio a diffyg defnyddio'r gwirydd sillafu (naill ai un Microsoft neu Cysill neu'r ddau) yn cyfrif am sawl brycheuyn ar y sgrïpt. Wrth ddarllen trwy'r darn, cofiwch y pethau syml fel cynnal cenedl enw hyd ddiwedd y frawddeg neu'r paragraff. Dyma yn aml sy'n cyfrif am gamdreiglo.